

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

**Rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro
a'r
Trydydd Sector yng Nghaerdydd a Bro
Morgannwg**

Ebrill 2022

1. Diben a Chwmpas

- 1.1 Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw sail cyd-ddealltwriaeth a pherthynas y Trydydd Sector yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro. Caiff y Trydydd Sector ei gynrychioli yn y cyd-destun hwn gan Gyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) a Gwasanaethau Gwirfoddol Bro Morgannwg (GVS) a'r Cyngorau Gwirfoddol Lleol (CGLlau).
- 1.2 Bwriad y Memorandwm yw dangos ymrwymiad y partïon i gydweithio er mwyn gweithredu strategaeth [Llunio Dyfodol Ein Lles](#) y BIP a'r cynlluniau partneriaeth strategol, cydnabod na fydd gwelliannau yn iechyd y boblogaeth ond yn bosibl os ydym yn gweithio'n wahanol a chydweithio mwy â chymunedau a phartneriaid.
- 1.3 Mae'r Memorandwm yn cefnogi, ond mae'n annibynnol ar, unrhyw drefniadau neu gontractau eraill a lofnodir gan neu rhwng y sefydliadau perthnasol.
- 1.4 Mae'r dull yn rhannu uchelgeisiau ar gyfer meithrin perthnasau rhwng y Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector, gan weithio'n gryf ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ac mae wedi ei seilio ar gydgytundeb ar amcanion a chanlyniadau strategol a rhanberchnogaeth ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer darparu ar y cyd.
- 1.5 Mae deddfwriaeth a pholisïau allweddol sy'n darparu ar gyfer cyd-destun y Memorandwm yn cynnwys 'Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- 1.6 Wrth lofnodi'r Memorandwm hwn, mae pob parti yn datgan y bydd yn adeiladu ar nerth perthnasau presennol a sylfaen gref sydd eisoes wedi ei gosod trwy weithredu Fframwaith y Bwrdd Iechyd ar gyfer Gweithio â'r Trydydd Sector: 'Gweithio Ynghyd er Dyfodol Ein Lles'.

2. Statws y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

- 2.1 Mae'r partneriaid yn cydnabod nad yw'n fwriad ganddynt i'r Memorandwm hwn osod rhwymiad cyfreithiol. Yn hytrach, datganiad ydyw o'u cyd-fwriad i gydweithio mewn ysbryd o bartneriaeth a chydweithredu er budd preswylwyr Caerdydd a Bro Morgannwg.
- 2.2 Bwriad y Memorandwm yw ategu a chefnogi perthnasau gwaith eraill sy'n gweithredu ar lefel partneriaeth strategol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.3 Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn helpu i wneud y gorau o rôl y Cynghorau Gwirfoddol o ran darparu cymorth a datblygiad y trydydd sector ar lefel leol, meithrin datblygiad grwpiau lleol, cynnal Canolfannau Gwirfoddoli, ac ymgysylltu â phartneriaid yn y sector statudol i wella canlyniadau iechyd a lles cymunedol lleol.

3. Amcanion

Gweithio'n effeithiol ar y cyd er mwyn gwella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd ar gyfer pobl Caerdydd a Bro Morgannwg.

3.1 Datblygu dull cydweithio cyd-gynhyrchiol fel partneriaid cydradd wrth helpu'r systemau iechyd a gofal i wneud penderfyniadau a datblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r ffyrdd y gall y Trydydd Sector gyfrannu at welliannau i wasanaethau iechyd, gofal a lles, a'u cynaliadwyedd. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ffyrdd o wella gwerth cymdeithasol a hyrwyddo'r agenda lles ac ataliol lle bynnag y bo modd.

3.2 Hyrwyddo a defnyddio talent, cyrhaeddiad a gwerth cymdeithasol sefydliadau'r Trydydd Sector i helpu i atal a gwella, a gweithredu ar ran pobl sydd prin yn cael eu clywed fel arall, gan gydnabod bod yn rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir adlewyrchu anghenion unigolion y gall eu dewisiadau a'u heriau bywyd olygu nad ydynt yn ymgysylltu'n hawdd â chynigion gwasanaeth traddodiadol.

3.3 Rhannu modelau arfer gorau rhwng y Trydydd Sector a'r Bwrdd Iechyd a Chyrchu Tystiolaeth ynghylch atebion cynaliadwy, y gellir eu mesur, i atal a lliniaru anghydraddoldeb sy'n effeithio ar iechyd a lles cymunedau.

3.4 Rhoi'r gallu i aelodau'r Trydydd Sector gyfrannu at ddatblygu modelau gofal newydd fel sy'n briodol ac annog cyd-gynhyrchu wrth greu iechyd a gofal person-ganolog yn y gymuned sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.

3.5 Trwy rwydweithiau'r Cynghorau Gwirfoddol, ddeall yn well a chynnwys pobl a chymunedau wrth drawsnewid gwasanaethau iechyd, gofal a lles, gan roi'r gallu i lais pobl â phrofiad bywyd a'r rhai sy'n profi anghydraddoldeb iechyd roi gwybodaeth a llywio polisi a darpariaeth gwasanaethau.

3.6 Cynnwys y trydydd sector mewn strategaethau rheoli ystadau; cydnabod y gwerth ychwanegol y gall y sector ei gynnig trwy gynnig safleoedd a lleoliadau mewn cymunedau neu fod â gofal dros adeiladau cyhoeddus trwy drosglwyddo asedau.

3.7 Cynorthwyo Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fod y "man galw cyntaf" ar gyfer ymgysylltu â'r trydydd sector i hwyluso'r gwaith a nodir uchod, cynnig pwynt trafod polisi anffurfiol i bartneriaid sector statudol allweddol a

hwyluso cynrychiolwyr y trydydd sector wedi eu dewis gan eu cymheiriaid proffesiynol i'w cynrychioli ar fyrddau strategol a gweithgorau.

3.8 Cydweithio i ateb i'r heriau o weithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus, gan ddefnyddio dulliau partneriaeth sy'n bodoli eisoes i nodi cyfleoedd ychwanegol i gefnogi grwpiau sy'n agored i niwed a chymunedau lleol. Yng nghyd-destun 2022/23 mae hyn yn ymwneud â:

3.8.1 *Pharhau i weithredu ar ffurf amgylchedd sydd wedi'i baratoi ar gyfer Covid tra'n delio ag effaith sylweddol y pandemig ar wasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r angen i gydweithio i leihau ei effaith ar iechyd a lles ein cymunedau.*

3.8.2 *Adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod y pandemig i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn 'Llunio Dyfodol Ein Lles' a diwallu anghenion ein cymunedau.*

4. Egwyddorion a Chanlyniadau Strategol

4.1 Mae'r Memorandwm yn rhoi trosolwg ar sut bydd y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn cydweithio i wireddu'r egwyddorion strategol ac uchelgeisiau strategol yn Llunio Dyfodol Ein Lles a chynlluniau partneriaeth strategol:

4.2 **Grymuso'r Person:** Mae'r Trydydd Sector yn chwarae rôl hanfodol wrth gynorthwyo iechyd a lles a pherthynas hynny â'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, felly gall chwarae rôl allweddol wrth greu gwydnwch cymunedol:

- Gwnawn y gorau o berthnasau'r trydydd sector ac adnabod cymunedau er mwyn dylanwadu ar ymddygiad a chynorthwyo pobl i ddewis ymddygiad iachus
- Gwnawn y gorau o gyfleoedd i ddatblygu rôl y trydydd sector wrth atal salwch a chreu amgylcheddau iach a sicrhau bod ymgysylltiad â'r trydydd sector yn gynhwysol, ymgysylltu â sefydliadau â diddordeb yng nghwrs bywyd a'r person llawn mor effeithiol â'r rhai sy'n gweithio i wella sut y caiff amodau unigol eu trin.
- Byddwn yn cydweithio mewn ffordd sy'n sicrhau y darperir cymorth o ansawdd uchel i'r rhai sydd mewn argyfwng, yn enwedig ar adegau o bontio rhwng gwasanaethau, drwy sicrhau bod atgyfeiriadau rhwng gwasanaethau'n cael eu gwneud mewn modd effeithiol er mwyn lleihau'r risgiau i'r rhai sydd mewn cyfnod agored i niwed yn eu bywydau a thrwy rannu gwybodaeth yn briodol gan gynnwys mewn sefyllfaoedd brys
- Byddwn yn cydweithio i ddatgloi gwerth gwirfoddoli yn y gymuned, datblygu rolau hyrwyddwyr sy'n cefnogi iechyd a lles a chefnogi staff y BIP i wirfoddoli i gydnabod y manteision y mae hynny'n eu rhoi i'r ddwy ochr.

4.3 Gartref Gyntaf: Mae galluogi pobl i gynnal neu adfer iechyd gartref neu mor agos at eu cartref â phosibl yn golygu bod angen darpariaeth fwy lluosog fel rhan o fodolau gweithredu cymunedol mwy integredig:

- Byddwn yn cydweithio i gomisiynu a darparu gwasanaethau'r trydydd sector fel rhan o ddarpariaeth iechyd a gofal integredig yn y gymuned
- Byddwn yn mabwysiadu dulliau datblygu cymunedol ar sail asedau i ddeall a hwyluso cysylltiad rhwng pobl, grwpiau a chymunedau mewn ardaloedd a chlystyrau gofal sylfaenol
- Byddwn yn gwneud y gorau o gyfleoedd i sefydliadau perthnasol y trydydd sector ymwreiddio o fewn y Llwybrau Gofal Cyflawn.

4.4 Canlyniadau sy'n Bwysig i Bobl: Er mwyn cyflawni canlyniadau sy'n bwysig i bobl, mae angen i ni gynhyrchu ar y cyd â dinasyddion i ddylunio a thrawsffurfio ein gwasanaethau i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer gofal di-dor:

- Byddwn yn defnyddio arbenigedd gan y trydydd sector i gynllunio a dylunio gwasanaethau â phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar y person
- Byddwn yn cydweithio i gynorthwyo cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wrth gynllunio gwasanaethau iechyd, gofal a lles, dod o hyd i ffyrdd o wella ymgysylltiad â'r rhai sydd fel arall prin yn cael llais
- Byddwn yn gwneud y gorau o gyfleoedd cydweithio i sefydlu model atgyfeirio cymdeithasol i gynorthwyo mynediad at rwydwaith eang o wasanaethau lles.

4.5 Osgoi Niwed, Gwastraff ac Amrywiad: Ni ellir ond mynd i'r afael â'r heriau iechyd difrifol sy'n wynebu ein poblogaeth trwy ddull hirdymor a dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio â'r Trydydd Sector fel partner allweddol o ran datblygu atebion sy'n ymateb i angen lleol:

- Byddwn yn defnyddio rhwydweithiau Trydydd Sector Lleol a Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn llawn i greu cynghreiriaid newydd, gwella capasiti a datblygu atebion arloesol, gan gynnwys cyfleoedd digidol, ar sail ail-gydbwysu'r system iechyd a gofal cymdeithasol bresennol tuag at atal, gwydnwch cymunedol a hunan-gynorthwyo
- Byddwn yn atgyfnerthu cysylltiadau posibl rhwng y Trydydd Sector a staff rheng flaen y GIG i archwilio posibiliadau cydweithio i wella canlyniadau i bobl
- Byddwn yn cefnogi mabwysiadu arfer gorau wrth gomisiynu a chaffael gwasanaethau, gweithio â'r cynghorau gwirfoddol i ddatblygu ac atgyfnerthu mecanweithiau a phrosesau sylfaenol ac i weithredu gwerth cymdeithasol ac arloesedd cymdeithasol
- Byddwn yn dysgu ar y cyd ac yn rhannu adnoddau a sgiliau trwy'r sectorau

4.6. Dod o hyd i ffyrdd o gefnogi'r agendâu argyfwng hinsawdd a datgarboneiddio: gwyddom fod newidiadau andwyol yn yr hinsawdd a'r defnydd uchel o garbon yn gallu effeithio ar iechyd a lles hirdymor ein poblogaeth.

- Byddwn yn ceisio gweithio gyda rhwydweithiau Trydydd Sector lleol i ddatblygu dull hirdymor o helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

- Byddwn yn ceisio rhannu dysgu, adnoddau a sgiliau ar draws y sectorau, gan fabwysiadu arfer gorau lle bynnag y bo modd er mwyn lleihau ein hól troed carbon a gwneud dewisiadau cynaliadwy, hirdymor ar gyfer yr amgylchedd.

5. Ffyrdd o Weithio

5.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n disgrifio sut y mae'n rhaid i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus gyflawni'r dyletswyddau sydd arnynt dan y Ddeddf. Bydd y bum ffordd o weithio canlynol, sy'n diffinio'r egwyddor hwn yn sail i'r ffordd y bydd y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn cydweithio: hirdymor; atal; integreiddio; cydweithio a chynnwys.

5.2 Bydd y berthynas ar sail parch ac ymddiriedaeth cyffredin.

5.3 Bydd y berthynas ar sail cyfathrebu agored, prydlon a didwyll.

5.4 Bydd ymrwymiad cyffredin i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

5.5 Bydd y cynghorau gwirfoddol yn cydweithio i ddatblygu dulliau cyffredin trwy ardal Caerdydd a Bro Morgannwg pan fo'n briodol.

5.6 Bydd y Cynghorau Gwirfoddol yn sicrhau perthynas barhaus â phartneriaid allweddol yn y trydydd sector yn cynnwys Cavamh, yr asiantaeth seilwaith sy'n gyfrifol am weithio gyda grwpiau'r trydydd sector â diddordeb mewn iechyd meddwl.

5.7 Bydd cydnabyddiaeth o wahanol ddulliau o gydweithio yng nghyd-destun cydberthnasau a sefydlwyd fel rhan o'r gwaith o gyflawni swyddogaethau neu ganlyniadau a gomisiynwyd yn ffurfiol, i berthnasoedd a ddatblygwyd fel rhan o dirwedd partneriaeth ehangach cydweithredu ym maes iechyd a gofal.

6. Datrys Anghytundebau

6.1 Caiff anghytundebau fel arfer eu datrys ar lefel gwaith rhwng y swyddogion perthnasol. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir ei gyfeirio i'w drafod rhwng Cadeirydd a Phrif Weithredwr y BIP a Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr y Cynghorau Gwirfoddol.

7. Cyfnod y Memorandwm

7.1 Mae'r holl bartïon yn derbyn bod amgylchedd deinamig yn gyd-destun i'r Memorandwm hwn ac y bydd blaenoriaethau'n gallu newid. Mae hyn yn benodol bwysig yng nghyd-destun yr agenda integreiddio sy'n datblygu. I gydnabod hyn, caiff y Memorandwm ei adolygu a'i addasu'n flynyddol trwy gytundeb gan y naill ochr a'r llall. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei adolygu bob mis Ebrill. Cydnabyddir y cafodd yr adolygiad ei ohirio yn 2020 tan fis Medi 2020 yn sgil y pandemig COVID-19. Arweiniodd pwysau parhaus y pandemig yn 2021 at gynnal yr adolygiad nesaf ym mis Ebrill 2022.

7.2 Cynhelir cyfarfod adolygu blynyddol gan y Bwrdd Iechyd a bydd yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol y Bwrdd Iechyd
- Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd y Bwrdd Iechyd
- Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) y Bwrdd Iechyd
- Prif Swyddog Gweithredol C3SC
- Prif Swyddog Gweithredol GVS

Llofnodwyr

Mae'r canlynol yn cytuno ar y Memorandwm:

Sefydliad	Enw	Swydd	Llofnod	Dyddiad
BIP Caerdydd a'r Fro	Abigail Harris	Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol		
BIP Caerdydd a'r Fro	Fiona Kinghorn	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd		
BIP Caerdydd a'r Fro	Sara Moseley	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd		
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd	Sheila Hendrickson-Brown	Prif Swyddog Gweithredol		
Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg	Rachel Connor	Prif Swyddog Gweithredol		